Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Euryn Ogwen Williams

Cwmni/Corff Gr□p Boomerang

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Yn yr amgylchfyd digidol credwn ei bod yn hanfodol i gael presenoldeb cyson, hawdd cael gafael arno, ar gyfer plant yn yr iaith Gymraeg. Byddai gwasanaeth o'r fath yn cefnogi'r addysg ddwyieithog mae nhw'n ei dderbyn yn yr ysgol, ond ni ddylai'r gwasanaeth byth roi'r argraff mai ategu addysg ffurfiol yw ei fwriad.

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Nac ydw. Nid yw'r farchnad yn ddigon mawr i ddenu noddwyr a hysbysebwyr. Felly, ar sail gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ariannu trwy fuddsoddiad cyhoeddus yn unig y gellid cyflenwi gwasanaeth gyda rhaglenni gwreiddiol yn y Gymraeg.

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Yr undebau talent (MU, Equity, Undeb yr Awduron) a'r cymdeithasau hawlfreiniau (PRS ac MCPS)

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Mae'r oriau a gynigir yn addas ar hyn o bryd, ond gallai'r gystadleuaeth am sylw plant newid yn gyflym a dylid cadw'r sefyllfa yn hyblyg. Rhaid rhoi ystyriaeth gyson i anghenion a disgwyliadau plant yn y gwahanol oedrannau gan gofio fod sianeli eraill wedi eu targedu'n benodol at oedrannau arbennig (CBBC a CBeebies; Nickelodeon a Nick Jnr; Disney a Playhouse Disney; dylid cofio hefyd am yr angen i gefnogi a denu dysgwyr sut mae cynnwys rhaglenni ysgolion wedi eu nodi'n glir yn ystod y dydd, er enghraifft. Rhaid sicrhau fod y cynnwys yn ffres a dylid osgoi glastwreiddio wrth gynhyrchu gormod o raglenni

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Gwasanaeth sydd a lle penodol yn yr adran blant ar EPG Sky, Freeview a Virgin.
Gwasanaethau wedi eu brandio'n glir, deniadol a c□ .
Gwasanaethau sydd yn amrywiol a pherthnasol sy'n ddyrchafol ac yn cwmpasu profiad plant.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

O benderfynu sefydlu gwasanaethau i blant, mae'n hanfodol o'r cychwyn ei bod yn amlwg i blant mae hwn yw eu gofod nhw. Gan fod rhaid rhannu'r gofod rhwng gwahanol ystod oedran, byddai ei rannu gyda'r cynulliad yn lleihau gwerth y brand. Dylai fod yn bosibl ystyried dulliau gwahanol i ddarlledu gweithgareddau'r cynulliad sydd ar gael o'r wefan ar fand eang yn barod.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Mae'n bwysig sicrhau cyllid digonol yn hanfodol cyn cychwyn ar y fenter. Dylid chwilio am ddulliau o ychwanegu at werth y buddsoddiad cyhoeddus drwy gyd-ariannu, cyd-gynhyrchu ac egsploitio'r cynnwys o'r cychwyn cyntaf.